"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD"

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

GOLYGYDD—
Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Aberdar

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA"

CYFROL LIII
1953

Llandysul :
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS A'I FEIBION CYF., GWASG GOMER.

CYNNWYS

Adwy, Yr, 129.
Amnon, 17.
Atgofion am yr Undodiaid, 167.

Barddoniaeth, 92, 104, 125, 139, 152, 175, 190.
Bwndel o Faledi, 147.

Capel-y-Groes, 131.
Cwpwrth Llyfrau, Y, 47, 79, 116, 144, 160, 176, 195.
Cwrdd Blynyddol Urdd y Benywod, 124.
Cymdeithas Undodaidd De Cymru, 83, 107.
Cyrddau Chwarter, 64, 94, 128, 160, 131.

Chwedl Ynys Ninhw, 101.
Davies, Thomas Huws, 155.
Diwinyddiaeth y Testament Newydd, 140, 153, 163.
Druan o Bwci Bo, 42.
Dyddiadur Gwilym Marles, 4, 20, 40, 58, 73, 88, 105, 119, 166.
Dylanwad Dosbarth Allanol, 33.

Evans, Daniel Silvan, 8, 23.
Evans, David, 92.

Glan Glowon, 50, 70.
Gohebiaeth, 60.
Gwibdaith ar y Sul, 38.
Gymanfa Fach, Y, 68.

Hen Garden Bost, 106.

I Afallon af i wella, 49.

Jones, Idwal, 74.
Jones, Katie, 90.

Lewis, Tom, 103.

Llên y Mynwentydd, 35, 55.
Lluniau, 16, 103.

Marwgofion, 28, 44, 61, 78, 93, 111, 142, 159, 191.
Morgan, John Henry, 16.

Newyddion yr Enwad, 15, 30, 46, 62, 79, 112, 127, 159, 176, 192.
Nodiadau'r Golygydd, 65, 81, 97, 117, 146, 161, 177.

Penrhiw, Capel, 183.

Servetus, Michael, 185.
Tonic Sol-ffa, 121.

Undodiaid ar grwydr, 171.

Wiwer, Y, 173.

Ysgol Sul, Maes Llafur, 16, 95.

AWDURON

Cledlyn, 92.
Davies, Parch Ben, 167.
Davies, D. Jacob, 42, 81, 101, 103, 139, 147, 173.
Davies, Watkin, 35, 55, 171.

Evans, Annie, 68.
Evans, G., 124.

Jones, Henry, 33.
Jones, Parch. Islan, 121.
Jones, Parch. Simon, 17, 90.

Morgan, D. Ll. Carellio, 129.

Nance, 104, 175.

Peate, Iorwerth C., 183.

Rees, A. J., 38, 125.
Rees, Parch. Seymour, 8, 23, 49, 74, 155.

Tilsley, Parch. G. R., 175.
Thomas, Ellen, 190.
Thomas, Parch J. Marles, 50, 185.

Williams, D. J. (Abergwaun), 1.
Williams, Y Parch. T. O., 83, 107, 131.

Digitized by the Internet Archive
in 2025

https://archive.org/details/yr-ymofynnydd_1953-01_53_1

YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LIII. IONAWR 1953 RHIF 1

Gwarnoge.

Gan D. J. WILLIAMS, Abergwaun.

IE, Gwarnoge, nid Gwernogle, na Gwernogau, nac unrhyw gynnig arall ar egluro'r enw, y geilw'r ardalwyr y lle, a ninnau'r cym'dogion agosaf yr un modd. Enw gwneud cymharol ddiweddar yw 'Gwernogle,' a'i darddiad yn amlwg, gan y byddai 'gwernogle,' yn wir, yn ddisgrifiad digon cywir o'r ardal fryniog hon a'i hafnau dyfnion, coediog, ar bob tu. Credaf fod gan y pwlffyn bach, sionc hwnnw, y Parch. D. Gwernogle Evans, awdur "Y Deryn Du" a phethau adeiniog eraill, rywbeth i'w wneud â'r ffurf newydd yma, i ddechrau. Bu ef am gyfnod, tua diwedd y ganrif o'r blaen, yn weinidog yr Eglwys Annibynnol yma ; a thua'r adeg honno, mae'n debyg, y gwelwyd, am y tro cyntaf, y trawsnewid ysgolheigaidd hwn yn hen enw'r lle. Corfforodd D. Gwernogle Evans yr enw newydd ynddo'i hun, gan dreulio gweddill ei oes yn hysbyseb fyw, dramwyol o'r newid hwn drwy rannau helaeth o'r De. Dyna hanes creu 'Gwernogle,' medden nhw. A gwelodd y bobl mai da iawn oedd.

Fodd bynnag, nid y fi, bid sicr, a ddylai fod yn ysgrifennu'r nodyn rhagarweiniol hwn ar ardal Gwarnogau, bro enedigol y gŵr nodedig Gwilym Marles y ceir detholion mor werthfawr o'i ddyddiaduron dan ofal y Golygydd diflin yn y rhifynnau nesaf o'r YMOFYNNYDD. Mae'r gŵr a ddylai fod yn gwneud y gwaith hwn, ysywaeth, yn ei fedd, a'r bwlch o'i ôl yn wag. Fe ellir synhwyro tipyn o fywyd gwlad neu dref ddieithr drwy dreulio ychydig wyliau yno ; ond ni all neb ddeall ac adnabod bywyd ardal wledig oni faged yno res o'i gyndadau. Yn awr, fe ymatebai'r Parch. T. Eirug Davies a oedd yn fy meddwl yn llwyr i'r amod hwn. 'Roedd ef yn un o hen wehelyth y fro, a stamp y fro honno yn drwm ar ei feddwl a'i gymeriad. Yn ffodus iawn, mae cefndir bywyd ardal Gwernogau, yn gymdeithasol ac yn ysbrydol, wedi ei roi i ni

yn hynod o gyflawn gan Eirug yn ei lyfr bychan ar Hanes yr Eglwys Annibynnol yn y lle, ac yn ei Atgofion Bore Oes yn *Y Dysgedydd*, ac yntau'n olygydd iddo, ysgrifau o'u cyhoeddi'n llyfr a fydd yn glasur llenyddol yn gystal ag yn ddogfen hanes o gywirdeb anghyffredin.

Wrth draethu gair fel hyn ar Warnoge, ynteu (neu Warnogau a bod yn glasurol) nad yw ond pedair milltir o Rydcymerau, fy hen ardal i, gwn mai rhyw dresbasu a wnaf ar hawliau cysegredig pobl eraill ; un o bobl yr ymylon ydwyf, yn cerdded ar flaen fy nhraed, gan aros ennyd a chlustfeinio am beth a glywaf. Maddeued yr ardalwyr fy hyfdra ; ond am y tro, o leiaf, tresbasu ar wahoddiad a wnaf. Pwy a saif yn erbyn Jacob ?

Gan fod Rhydcymerau a Gwarnogau yn groes gwlad i'w gilydd, y bencydd uchel a'r cymoedd isel yn gwneud y dramwyfa rhynggddynt yn anhygyrch, ac ardal Llidiad Nennog ar rostir y mynydd uwchben yn eu gwahanu ymhellach, nid yw cyfathrach agos a chyson rhwng pobl y ddau le yn bosib. O ganlyniad, ac y mae'n gywilydd gennyf arddel hynny, heddiw, rhyw deirgwaith, erioed, a hynny'n bur ifanc, cyn gadael cartref, y bûm i yng nghyffiniau ardal Gwarnogau,—mewn angladd yn Llanfihangel Rhos y Corn, mewn mudfa teulu o'r Hafod Wen i'r Salach (O ryfedd eironi'r ddau enw, er nad oedd y Salach yn *sal* o gwbwl, wedi mynd iddo, na'r Hafod Wen mor *wen* â hynny chwaith), ac yna, yn bwrw Sul, rywdro yng Ngwar Allt pan oedd Marged fy nghnither a Jâms ei gŵr yn dechrau eu byd yno.

Ond er nad oedd na ffordd na phriffordd uniongyrchol yn cysylltu Rhydcymerau a Gwarnogau â'i gilydd, a bod Fforest Brechfa, yn ddiweddar, wedi plannu wal goed filltiroedd o drwch rhyngddynt, bu yma, drwy'r cenedlaethau, ddeufan cyfarfod pwysig i'r bobl gymdeithasu a dod i adnabod ei gilydd,—sef mewn eisteddfod ac mewn ffair neu farchnad : yn Eisteddfod Nadolig Rhydcymerau, er enghraifft, a gynhaliwyd am dros drigain mlynedd yn ddi-fwlch, ac yn ffeiriau a marchnadoedd cyson a phoblog Llanybydder.

Yn nhafarn bach to gwellt Penrhiw Llyn ar dop y pentre fel yr oedd 'slawer dydd dan ofal Ifan ' y landlord ' a Rachel ei wraig yr arferai gwŷr yr ardaloedd hyn selio'u cyfeillgarwch a'u hadnabyddiaeth o'i gilydd ar ddiwedd y dydd, cyn troi adref dros y mynydd, bob un i'w gynefin ei hun, draw yng ngwelfa blaenau Cothi.

Er nad oeddwn i, fel y dywedais, yn gyfarwydd ag ardal Gwarnogau, yn ddaearyddol, 'roedd gennyf fel fy mam o'm blaen ryw glust go lew am enwau llefydd, a chof am dylwythau. 'Roedd enwau fel Ffynnon Gog, Pant y Coubal, Nant y Perchyll, 'Foel Gloferog, Llain Olau, Blaen Holyw, Rhiw Seithbren, Esger Fynwent, Bryn Llywelyn, etc. yn ddigon cyfarwydd i mi er yn blentyn, Gwyddwn pwy oedd yn byw ymhob un ohonynt, a thipyn am

gysylltiadau rhai o'r teuluoedd. A phwy nad adwaenai Ben Evans, y Brithdir, y bu ei enw am flynyddoedd lawer ar bron pob papur acsiwn rhwng Cothi a Theifi o Lancrwys i Nantgaredig?

Nid yr un ydoedd tueddiadau cynhenid pobl Rhydcymerau a phobl Gwarnogau. Ac eithrio teulu Esgerceir, a'r bardd a'r arweinydd eisteddfod dawnus, D. Ehedydd Jones, ewyrth Gwenallt, yn bennaf ohonynt, cerddorol ydoedd anianawd ein hardal ni. Eisteddfod a phreimin redig ydoedd ein dau sefydliad traddodiadol, a'r wlad o gwmpas yn tyrru iddynt. Mae'n wir i ni godi rhai pregethwyr; ond ein cynnyrch naturiol ydoedd beirdd a chantorion,—na, dim enwogion o gwbwl, eithr storïwyr a phlygwyr perth gwerth rhoi sylw iddynt, ac ambell arddwr glew.

Ond ardal dra gwahanol ei thraddodiadau ydoedd Gwarnogau nad oedd fawr o bellter rhyngom â hi. Tra fyddem ni wrthi yn canu ac yn "whlia", ein ffurf ni ar y gair "chwedleua", i'n diddanu ein hunain byddent hwy yn diwinydda'n ddwfn ac yn gwleidydda'n danbaid. Dyma fro a welodd, unwaith, ddadlau brwd rhwng y ddwy gredo, Undodiaeth a Thrindodiaeth, rhwng Sosin ac Annibynnwr,—a chapel bach Cwmwr Du a'i ddrysau ynghau ers cenedlaethau bellach yn dyst o'r modd y trôdd y fantol. Dyma hefyd, gartref Radicaliaeth gadarn canol y ganrif o'r blaen, a brwydr y werin dros ei hawliau,—brwydr y bu gan Gwilym Marles ei hun, a faged yma ran mor bwysig ynddi, ac yntau'n cynnal ymlaen apostoliaeth Tomos Ifans, Glyn Cothi, o'r un gym'dogaeth eto, a ddioddefodd ddwy flynedd o garchar oherwydd ei gydymdeimlad ag egwyddorion y Chwyldro Ffrengig,—Rhyddid, Brawdoliaeth, Cydraddoldeb. Ac un o'r ardal hon ac yn yr un olyniaeth ysbrydol ydoedd y Parch. William Jones, Ystalyfera, tadcu Mr. Wynne Samuel, apostol rhyddid Cymru heddiw. Yng Ngwarnogau, ymhellach, bu brwydr Datgysylltiad yr Eglwys yn boeth a phendant, a "chyrn rhyfel y degwm" yn datsain drwy'r cymoedd hyn, draw dros y mynydd hyd at Bencader.

Ardal wedi ei meithrin yn ddwfn ac yn hir yn egwyddorion Cristionogaeth a gwleidyddiaeth ddyngarol yw Gwarnogau, lle cyfunir gwres a thanbeidrwydd ysbryd yr Annibynnwr ynghyda meddwl clir, rhesymegol, yr Undodwr. Yn y diweddar Eirug Davies, yn anad neb o'i plant, efallai, fe gaed cyfuniad hynod gyflawn o ddoniau'r ardal ar eu gorau.

Ehedydd y bardd, Dafydd Ifans y Siop—yr arweinydd canu, Dafydd 'r Efail Fach—y storïwr ffraeth a'r llaw-whithiad deheuig, ydoedd ein gwŷr enwog ni i'w clodfori yn Rhydcymerau,—gwladwyr y gallai unrhyw ardal ymfalchio yng ngwerth eu doniau. Ond o Warnogau fe gododd Tomos Glyn Cothi, Gwilym Marles, ac Eirug, heb enwi rhagor,—gwŷr y daeth cenedl gyfan i adnabod eu henwau.

Dyma fi, ynteu, fel tresbaswr wedi bod yn cerdded yn fwy trwsgwl

nag y dymunwn ar dir gwaharddedig bro arall, gan glustfeinio beth a glywn. Byddaf yn fwy clustfain byth wrth edrych ymlaen am rifynnau nesaf Yr Ymofynnydd lle'r addewir i ni gan y Golygydd chwilotgar ddetholion o Ddyddiaduron Gwilym Marles sy'n rhwym o fod yn llawn o bethau diddorol o'i brofiad ef ei hun ac o hanes yr ardal arbennig hon ryw gan mlynedd yn ôl.

Dymunwn, wrth orffen, longyfarch y Golygydd, Mr. Jacob Davies, ar daro ohono mor ffodus fel hyn ar y trysordy newydd yma ; a bendith arno am rannu o'i drysorau â ninnau, y darllenwyr.

Dyddiadur Gwilym Marles.

1850.

Rhagair..

Yr oedd Gwilym Marles yn bymtheg oed pan ddechreuodd ysgrifennu'r dyddiadur hwn, ac ar y pryd yn byw gyda'i Ewythr Seimon ac wedi ei fabwysiadu ganddo. Ganwyd ef yng Nglanrhydygwiail ac fe glywir sôn pur aml am y lle hwnnw yn y dyddiadur. Ceir cyfeiriadau mynych at ei 'gelfyddyd,' sef gwaith crydd yng ngweithdy ei ewythr. Copiwyd y dyddiadur yn ofalus gan lynu wrth y gwreiddiol ym mhob peth. Fel y gellir disgwyl mewn geiriadur a hwnnw yn ddyddiadur plentyn, y mae cryn dipyn o ail-adrodd ac er mwyn arbed treth ar y darllenwyr gadawyd yr ail-adroddiadau dibwys hynny allan o'r copi hwn. Fodd bynnag, y mae'r pythefnos cyntaf yn llawn ger eich bron fel y bo gennych syniad o beth a adawyd allan pan welwch y marciau yma : . . . . . Diolchaf o galon i gapel Llwynrhydowen am roi benthyg y dyddiadur i mi ac i'w ferch am ganiatâd parod i'w gyhoeddi. Y mae'r cyfan wedi ei ysgrifennu mewn llaw rhyfeddol o fân ar Ddyddiadur yr Annibynwyr am 1850 a dechreuwn gyda'r wyneb-ddalen. Y mae'r cys *yn golygu "mynd i gysgu".*—Gol.

William Thomas [Gwilym Marles]

Ionawr 1af, 1850.

Cynghor i wneud Inc.

Aleppo galls, incearse powder ..	8 ounces
Logwood in chips	4 ounces
Green vitriol	4 ounces
Gum arabic, in powder ..	3 ounces
Blue vitriol	1 ounce
Sugar Candy	1 ounce

Berwch *y galls a'r logwood* yn nghyd mewn 12 pint o ddwfr, hyd nes y lleihao i'r hanner ; tywelltwch yr hylif trwy ogr, neu lian bras, ac yna rhowch y pethau eraill i mewn ynddo. Ysgydwch y cwbl, nes toddi pob sylwedd, yn enwedig y gwm. Gadwch iddo lonyddu dros 24ain o oriau ac yna tywelltwch i gostrelau i'w gadw. O'r *Golygydd*, Rhif 4 (yr un am Mehefin), gan J. Jones, Merthyr Tydfil.

Ionawr.

1 Maw. Codi 7.—blwyddyn newydd wedi gwawrio y tlodion au cydau ar eu cefnau yn cerdded at ddrws tŷ y tyddynwr.—Bum yn gwasanaethu hyd 9. David Cooper yma borau heddyw.—Tom yn hela heddyw.—Ewythr yn cwrdd yn Braichfa am 2. Cys 11.

2 Mer. Codi 7.—manorchwylion, ysgubo ty, bwyda y da etc. hyd 1—wrth fy nghelfyddyd hyd ½ awr wedi 4—yna carthu y beudy, whintella etc. hyd ½ awr wedi 8, hin hytrach yn oer ond nid echryd oer. Ewythr yn cwrdd canol mis am 12 yn y Gwernogle a modryb tua Cwmpib (?) cys 11.

3 Iau. Codi 6.—gwasanaethu hyd 9—yna wrth fy nghelfyddyd—½ awr wedi 4, yna tua Gelligrin hyd 5 yna tua Gwernogle yn y cyfarfod. Un Philip Thos. yn pregethu yno ar Gal. 6. 14. Gwerthai "Daith y pererin a Christiana, a Hanes bywyd Bynyan" oll yn un cyfrol am 3s. Cyrhaeddais adref erbyn 9. hin niwlog. cys 11.

4 Gwe. Codi 6. Gwasanaethu hyd 7 yna wrth fy nghelfyddyd hyd 8 o'r nos, oddieithr hala y da a mynd i'r Cnwc o 11 hyd 12 a carthu beudy tua Gelligrin 2 waith a hol da o ½ wedi 4 hyd ½ wedi 5, hin wleb, gwlawio yn echryd weithiau : Tom yn Neithior y Cefn er 9 or borau ; Modryb tua Braichfa ar Lan heddyw. cys 11.

5 Sad. Codi 6.—gwasanaethu hyd 9, wrth fy nghelfyddyd hyd 1, yna yn hol clai, maeddu pelau, hol erfin, glanhau y dodrefn, sychu esgidiau etc. rhewodd ychydig neithiwr, gwlawio eira-wlaw heno, Tom tua Blaencwm etc. Daeth y blawd gwenith yma heno or Felinfforest am ½ wedi 4. cys 11.

6 Sab. Codi 8 ymddangos yn y Gwernogle (*capel yr Annibynwyr*) am 10. Dl. Evans yn pregethu ar Luc 8 8 ad. rhan olaf. yn yr ysgol yn Nanthir am 2 yn darllen Mat 11, 22-30. Yn y gyfrinach yn Gelligrin am 6, traddodais sylwadau ar Esay 55.6. hin oer a rhewlyd darllen ac ysgrifenu etc.—Cys ½ wedi 10.

7 Llun. Codi ½ wedi 5, gwasanaethu trwy y dydd, ysgubo y tŷ, tynu y lludw, glanhau y ty, hala'r da, tynu cloron, godro 2 waith etc. Cwrdd gweddi misol yma heno, rhyw lawer ynghyd. Meeting y rhent heddyw Ewythr yn Velingwm o 7—1 tua Braichfa nawn. Aunt yn ffwrno. Cys 11.

8 Maw. Codi ½ wedi 6, myned i'r lan i Glanrhydygwiail i ddyrnu Tom a minnau, des adref ½ wedi 9 daith Ewythr ir lan oddeutu 2. Buom yn y cwrdd Aber, J. Davies Glasbwll yn pregethu Sal. 91, 14,

15, 16 o adnodau. hin oer a rhewllyd, heddyw yn llawn ia, ysgwyd gwellt oeddwn heddyw. Cys 11.

9 Mer. Codi ½ wedi 5, gwasanaethu heddyw trwy y dydd tua Gelligrin, oddeutu 7, yna sgubo'r ty golchi llestri aml waith, sychu caws, hala da, carthu beudy, torri coed, cynneu tanau a whintella 7—15 m wedi 9. Ewythr a Modryb tua Glanrhyd er y borau. 7. llwyth gwellt Glanrhyd a Gelligrin yn dod yma 5. Cys 10.

10 Iau. Codi 7, gwasanaethu hyd 9, yna wrth fy nghelfyddyd hyd ½ awr wedi 11, yna llanw tail, Tom Gelligrin ar fen yma heddyw yn mynd a thail i'r cae draw. Ewythr tua Llanybyddar gyda Men Henffordd i hol lledr, adref 5, hin mwy nawsaidd. Evan (?) fy mrawd mynd adref am ½ wedi 4. Cys 10.

11 Gwe. Codi 6, gwasanaethu, sgubo'r ty golchi llestri, bwydo'r da, tua Gelligrin 10 ac am 11, carthu etc. hyd 2, yna wrth fy nghelfyddyd hyd 9 oddieithr godro am 6, tua Nanthir am ½ wedi 5, Modryb yn crasu heddyw yn Gelligrin o 7 y borau—8 or nos. Gwlawio eira bron trwy y dydd rhewi heno. Cys 11.

12 Sad. Codi ½ awr wedi 6 gwasanaethu hyd 9 yna gwnio hyd 1, yna gwasanaethu, crafu erfin a chloron, sgubo'r ty glanhau y dodrefn, golchi llestri etc. hyd 6 yna gwnio hyd 8, yna tua Nanthir—9. byd gwyn ac oer ffordd hyn heddyw—tua Penygar heno. cefais annwyd heddyw. cys 12.

13 Sab. Codi 20 m. cyn 8. Modryb yn glaf iawn neithiwr a heddyw . . . yna taclu, yn y Gwernogle am 10. R. Powell yn pregethu . . . cyfranogais o'r ordinhad . . . Buais yn Nanthir am 6 *ni* bu cwrdd yno ni ddaeth neb ynghyd, yn hin oer hynod. Tom oddiyma heddyw, darllen etc.—11.

14 Ll. Codi 6 . . . Mod. yn lled glaf, beth yn well . . . glanhau *tins* godro 2 waith. Gelligrin yma oddeutu y dom hyd ½ wedi 11 o 9 methasant . . . rhew etc. Cys 11.

15 Maw . . . 7 . . . Modryb yn well ronyn . . . hol eithin o 4—5 tua Gelligrin o ½ wedi 11 hyd 12. tan yn y gweithdy. . . . Tom tua dolhir ym mrig yr hwyr. Cys 11.

16 Mer. . . . 7 . . . hol dau faich o eithin . . . Tom yn dyrnu eithin . . . ysgrifenu darllen etc. Cys 11.

17 Iau . . 7 hol baich o eithin . dyrnu . . . yn y cwrdd yn Gwernogle heno David Davies gynt o Rydybont yn pregethu . . . 11.

18 Gwe. 7 . . . tua Rhydgoch yn ysgrifio llythyr o 3 hyd 4, tua Gelligrin wedyn yn ysgrifio Interest ar Note . . . 11.

19 Sad. 6 . . ., tua Whitehall hol barmyn o 7—8 . . . Tom tua Chaerfyrddin heddyw—dadleithio neithiwr. Dl Esgerhir yma heno . . . 11.

20 Sab. . . . ½ wedi 7, ymddangos yn y Gwernogle am 10. Jno Lodwick yn pregethu ar ysgol am 2 yn Nanthir yn darllen Mat. . . . yn y gyfrinach yn yr un lle am 6 traddodais sylwadau ar 2 Tim. 3, 13, 14, 15. Y Diwygiwr ar Tywysydd yn dod i law darllen 8—11.

21 Llun. 6 taclu, myned i lawr i Felingwm i'r ysgol, gyda Modryb . . . y basgedaidiau yn drwm, cyraedd obry erbyn ½ awr wedi 11. Myned i'r ysgol. Ymroi Arithmetic yn yr ysgol ar tasks yn yr hwyr, lodgo yn y Plough gyda Jno Gwarallt ac Evn Ynyscriw, lle hynod gysurus . . . 11.

22 Maw. Codi 7. darllen dysgu & myned i'r ysgol am 9. Arithmetic, Geography, English Grammar & ciniaw 12, Penderfynais i beidio rhoi fy mryd ar unrhyw wegi, bwydydd, chwareu difyrwch o unrhyw ac ymroi yn hollol i ddysgu, efelychu Newton & mewn egni. Cys 11.

23 Mer. Codi 7. Darll. ysgr. . . . ysgol hyd 4—yna ymroi i fyfyrio. Yr wyf yn dan fwy o deimlad nag erioed am lwyr ymroi at ddysgeidiaeth y dyddiau presenol. Nid wyf yn treulio un adeg braidd yn ofer. Cys 11.

24 Iau. 7—ymroi at ddysgu . . . task yn yr Eng. Gr. ar Geog bob borau, astudio rhifyddiaeth, anianyddiaeth & Yr wyf yn teimlo yn wresog anarferol at Mr. J. Edwards fy ysgolfeistr, mae yn astudiwr gwreiddiol, diflino ac ymroddgar. Cys 10.

25 Gwe. 7. Ymolchi, golchi fy slate, astudio. yr ysgol am 9—12 allan hyd 1 yn yr ysgol 4. Ymdrechu yn ddiflino i gyrhaedd gwybodaeth. Mr. Edwards am oddeutu ½ awr wedi yr ysgol yn y Plough. Yr wyf wedi penderfynu i beidio mynd gam mwy ymlaen heb ddeall principles pethau. Y 3edd gannwyll ar ben heno. Cys 11.

26 Sad. Codi ½ wedi 6. Ymroi at fy addysgiawl ddyledswyddau . . . yna tuag adref, cyrhaedd yno erbyn 4 . . . mynd heibio Cnwc gweld yr eneth newydd, i hol erfin, carthu & darllen 11.

27 Sab. a wedi 7 . . . hwy eill tri yn y cwrdd. Buais yn yr ysgol yn Nant . . . am 2. Yn y gyfrinach yn Waunrydd yr hwyr. Ioan 15.2 dan sylw.

28 Llun. 6a. taclu i fynd i lawr i'r ysgol . . . gwlychu i'r croen . . . cyrhaedd obry erbyn 8 lled anhwylus trwy'r dydd. yn waeth heno. Pen a'r cefn.

29 Maw. 8. Noswaith ddigysur iawn neithiwr . . . fy mhen yn ddwl or braidd, nid es i'r ysgol. Mr. Edwards yn galw arnaf. Hanner dydd golchi fy nhraed, myned i'r gwely ac i yfed yn fore fory gruel. Cys 8.

30 Mer. 10. Cysgu yn weddol a chwysu neithiwr, ddim yn hollol dda er hynny a Mr. Edwards yn edrych amdanaf lawer gwaith yn y dydd. Yr wyf yn ei ystyried yn ddyn hynaws ac ymroddgar i wneud daioni. Ni fum yn yr ysgol rhag cael anwyd ar ol cymeryd chwys. 10.

31 Iau. Codi 7. Wedi gwella yn awr, yn yr ysgol heddyw. Modryb yn y Plough heddyw am wedi clywed fy mod i yn glaf . . . Darllen astudio hyd 10. Dylwn fod yn fwy gwyliadwrus at reolau iechyd 10.

[*I Barhau*]

Daniel Silvan Evans.

Gan y Parchedig J. Seymour Rees.

I.

Trychineb o'r mwyaf yw canfod enwau llawer o'n cymwynaswyr yn llithro'n rhy gynnar i anghofrwydd. Yn dra mynych, bydd cysgodion y bedd yn cuddio hanes dyn enwog, a thywarchen yn cloi ei anrhydedd mewn dinodedd.

Hyn, yn ddiamau, hyd heddiw, fu tynged Daniel Silvan Evans. Nid gweddus, ar unrhyw gyfrif, yw ei anwybyddu. Teilwng yw o'n gwrogaeth ar bwys ei wasanaeth mewn argyfwng, a than lu o anfanteision.

Rhwydd hynt i bob beirniadaeth deg ddisgyn arno, eithr na fychaner ef trwy ei esgeuluso. Rhagorer arno i'r graddau helaethaf, ond cofier ei gydnabod am ei lafur fel arloeswr pwysig. Ar y cyfrif hwn trwm yw ein dyled iddo.

Wrth gofnodi ei farwolaeth, dywed un o'i fyfyrwyr yng Ngholeg Aberystwyth, Syr Owen M. Edwards, amdano yn y geiriau hyn : "Efe oedd llenor hynaf a phwysicaf Cymru. . . . Y mae rhestr ei lyfrau o bob math yn hir ac yn bwysig. Gwelodd flagur meddwl ein cyfnod effro a gwladgarol ni, a gwnaeth lawer i hyrwyddo a chryfhau'r tyfiant. Prin y gefnogaeth a gafodd. Yn gilwgus ac yn amheus yr edrychai awdurdodau ei Eglwys ar ei waith llenyddol. Ychydig fyfyrwyr ymunai a'i ddosbarthiadau. Aeth i'w fedd heb weled argoel am orffen gwaith mawr ei fywyd : a gadawodd le i ysgolheigion y dyfodol i fyned i mewn i'w lafur".

Digon gwir yw'r dystiolaeth. Braenarodd ef y tir i wŷr eraill, a thorrodd gwysi y medwyd cynhaeaf toreithiog ohonynt.

Wrth fwrw llinyn mesur yn anniben trosto, teg yw cofio mai digon prin oedd nifer yr ysgolheigion mewn Cymraeg a'i llenyddiaeth cyn dyddiau Silvan Evans. Dryswyd y traddodiad gan lawer iawn o anfadwaith. Trwy ei ddyfalwch y dechreuwyd cywiro tipyn ar yr Orgraff, a gosod trefn mewn cyfeiriadau eraill. Gan hynny, dylasem estyn diolch iddo am ei gyfraniad.

Bellach, ein braint yw gosod braslun o yrfa ddiddorol Silvan Evans ar glawr. I raddau helaeth, cuddiwyd ei hanes â niwl. Un amharod oedd ef i ddatguddio dim ffeithiau amdano ei hun. Ni chwenychai aros tan olau llachar, na sefyll yn wrthrych i dynnu sylw'r cyhoedd.

Ar un achlysur, ymwelodd cyfaill ag ef i chwilio defnyddiau at lunio ysgrif arno i gylchgrawn. Atebodd Silvan trwy erfyn yn daer : "Peidiwch gwneud dim o'r fath beth : ond wedi fy marw, ac fe

fydd hynny cyn bo hir, cewch ddweud beth a fynnoch, a faint a fynnoch".

Ar ôl ei farwolaeth, ymddangosodd nifer o erthyglau mewn gwahanol fannau. Eithr ymhob un a welais i, y mae llawer iawn o wallau yn eu britho. Yn bendifaddau, hyd yn hyn, ni cheir portread cywir ohono. Yn wyneb y diffyg, ceisiais, fel un a godwyd yn ei fro, ac a dyfodd yn edmygydd brwd, chwilio am ffeithiau oddi ar gof tystion geirwir o ardal ei enedigaeth.

Ganed Daniel Silvan Evans mewn amaethdy bychan, Fronwilym Uchaf, ym mhlwyf Llanarth, Ceredigion, ar Ionawr 11, 1818. Yn ddiweddar digwyddais droi yno, a gofyn i ferch ffraeth ei thafod, am y tŷ. Atebodd fi'n barod gan gyfeirio at feudy agos, a dweud : "O, ie yn y fan yna y ganed Silvan Evans". Ychwanegodd, gan wenu'n awgrymiadol : "a daeth da lawer ar ei ôl".

Enw ei dad oedd Silvanus Evans. Ni chefais nemor o ddim neilltuol am ei ddoniau. Yn unig, dywedid ei fod yn ŵr o benderfyniad di-ildio dros ei egwyddor. Yn enghraifft o hyn cyhoeddir iddo unwaith anufuddhau i gais perchennog ei fferm, yr Arglwydd Kensington, oherwydd bod hynny'n groes i'w ddaliadau. Yn wyneb pob bygythiad, glynodd wrth ei farn, ac yn y diwedd bu dan orfodaeth i ymadael â'i gartref.

Benyw o alluoedd y tu hwnt i'r cyffredin oedd ei fam, Sarah. Daeth hi o blwyf Troedyraur i wasanaethu fel llaethferch ym mhlas y Neuadd, Llanarth. Disgynnai, meddir, o linach Rhys Fychan ap Rhydderch, Arglwydd Tywyn, ger Aberteifi. Perthynas iddi oedd y Parch. Benjamin Williams, "Gwynionydd", bardd, hynafiaethydd, hanesydd, ac awdur y gyfrol *Enwogion Ceredigion.*

Cafwyd saith o blant o'r briodas. Silvan oedd yr ieuengaf ond un. Annibynwyr selog oedd ei rieni. Ar Fawrth 28, 1818, bedyddiwyd y baban gan eu gweinidog, Dr. Thomas Phillips o'r Neuaddlwyd.

Wedi tyfu ohono'n blentyn, danfonwyd ef am ddeufis o ysgol ym Mhenycae, gerllaw ei gartref. Yr athro oedd gŵr o'r enw Thomas Thomas. Yna, bu'n gweithio ar y fferm gyda'i dad, gan fynychu, yn ystod y gaeafau, ysgolion eraill yn y fro. Pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed, yn 1835, ceir ef yn Athrofa Neuaddlwyd (neu Ysgol Penybanc, wrth yr hen enw annwyl), ymysg yr olaf o ddisgyblion Dr. Thomas Phillips. Yn y cyfnod hwn, codwyd ef i bregethu gan Eglwys ieuanc Penycae, cangen o'r Neuaddlwyd. Ar fyr dro, dangosodd awydd cryf am wybodaeth, a daeth yn gampwr mewn Groeg a Lladin. Cafodd hefyd y fraint o ddefnyddio llyfrgell Mr. Brooks, gŵr bonheddig y plas, wrth ymyl.

Digwyddiad pwysig ar hyn o bryd oedd gwaith Silvan Evans yn cyhoeddi cyfrol fechan o Emynau, yn dwyn y teitl : "Emynau ar Amrywiol Destunau".

Yn ei Ragymadrodd, dyddiedig Mai 1, 1840, dywed : "Gelwir

hwynt yn Emynau yn hytrach na Hymnau, ar y dybiaeth fod y blaenaf yn air Cymreig pur, yr hyn nid yw yr olaf". Yma, gwelir y purwr iaith yn gynnar wrth ei orchwyl trwy fabwysiadu gair a ddaeth byth wedyn yn fawr ei ffafr.

Yr oedd gan yr awdur ddau amcan wrth gyhoeddi'r llyfryn hwn. Yn gyntaf dymunai gyflenwi angen ei wlad am emynau newyddion. Yn ail, prin oedd moddion ei gynhaliaeth ar gyfer addysg. Gosodwyd yn y casgliad gynnyrch nodedig o gymeradwy. Wrth gwrs, teg yw cydnabod oedran y cyfansoddwr.

Ym mis Rhagfyr o'r flwyddyn 1840, ar derfyn ei gwrs dan ofal Dr. Phillips, derbyniwyd Silvan Evans yn efrydydd o Goleg Diwinyddol yr Annibynwyr yn Aberhonddu. Yn ôl arferiad yr amser hwnnw, yr oedd i dreulio tri mis ar brawf. Yn ystod y cyfnod hwn gwnaeth argraff ffafriol iawn ar yr athrawon a'i gyd-efrydwyr. Dangosodd ei hun yn weithiwr caled a chyflym, a chymeradwywyd ef yn galonnog i gyflawn aelodaeth ym Mawrth, 1841.

Yn dra buan wedi hyn, digwyddodd trychineb a fu'n hynod o boenus yn ei effeithiau. Cafodd yr awdurdodau lythyr o'i gartref yn hysbysu bod cyhuddiad pwysig yn ei erbyn. Gan na fedrai ef ei wrthbrofi ar y pryd, barnwyd gan yr athrawon ac yntau mai doeth iddo oedd ymneilltuo dros ychydig o amser hyd oni ddeuai ei ddiniweidrwydd yn amlwg.

Dychwelodd i'w gartref i aros ei dynged. Ni chafwyd yn unman ddim sylweddol yn dystiolaeth i'w erbyn. Hyd y dydd heddiw, y mae pob lle i gredu mai'n ddiachos yr erlidiwyd ef. Bu ffugsancteiddrwydd ar ei warthaf yn y dulliau gwaethaf gan boenydio ei ysbryd hynaws. Gan na feddai adnoddau tymhorol i'w gadw'n segur, aeth ati am y blynyddoedd nesaf i gadw ysgol ddyddiol ar draws gwlad. Dechreuodd yn Nerwen Gam, gerllaw ei gartref. Yna, aeth i Gilcennin, Trefilan a Phencader. Drwy hyn oll amcanai gasglu digon o arian i'w gynorthwyo i groesi Iwerydd a chymryd ei siawns neu drengi mewn anobaith, yn America, fel Goronwy Owen a Gwenffrwd.

I gwrdd â threuliau'r anturiaeth hon, cyhoeddodd gyfrol arall, sef : "Blodau Ieuainc : Amrywion Prydyddol a Rhyddieithol." Cyfeiriwyd hon o Lanarth ar Awst 1, 1843. Yn y Rhagymadrodd, dywedir : "Eu cyhoeddiad presennol a achlysurwyd gan fwriad yr awdur o ganu yn iach i wlad hoff ei enedigaeth, a chymeryd ei hynt dros y dulas fôr am y ' Cyfandir Newydd,' heb amcanu dychwelyd mwy, yr hwn fwriad er mor annghymmodlawn a'i deimladau, nid yw, hyd yma, wedi ei osod o'r neilltu."

Drwy'r tymor y bu Silvan Evans yn talu ei benyd, gweithiai calonnau caredig o'i blaid. Gwyddai preswylwyr darn helaeth o'r wlad am ei alluoedd, a'i fod yn rhy fawr i fynd yn aberth i eiddigedd dynionach. Trefnodd cwmni o gymwynaswyr yn dawel ar gyfer ei

waredigaeth, a'i ddyrchafiad. Daeth cyfle gwych ar fyr dro i sylweddoli hyn.

Tua'r un pryd, yn ystod ei arhosiad yn Nhrefilan, cyfarfu ag un a fu wedyn, y dylanwad pennaf ar ei fywyd. Cydnebydd yntau hyn wrth gyflwyno iddi ei gyfrol, "Telyn Dyfi", yn y geiriau hyn : "Er Anwylaf Gof am Heulwen fy Mywyd, yr hon wedi llewyrchu a sirioli fy nyrys daith am dair blynedd a deugain, a fachludodd . . ." Ymbriododdâ honno, Margaret, merch i Walter Walters, o'r Hendre, Nantcwnlle, amaethwr cefnog, cyfrifol, ac Eglwyswr parchus yn Nyffryn Aeron. Digwyddodd y briodas ar Chwefror 16, 1846, pan oedd porth y Coleg yn Aberhonddu ar fin cael ei agor i'w adfer. Eithr erbyn hynny dirwynodd cynllun rhagorach i ben, a cheir Silvan Evans yn cefnu ar ei Enwad, ac yn efrydydd o Goleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, yn Hydref 1846.

Achosodd yr amgylchiad gryn gynnwrf yng ngwersyll yr Annibynwyr. A pha reswm digonol oedd am hynny ? Oni erlidiwyd ef allan o'r gorlan ? Geill enwadaeth ar rai adegau ymostwng i bydewau annuwiol. Dilornwyd ef gan lawer am ddewis llwybr o waredigaeth. Yn eu mysg, poenus yw cofnodi, ceir Ieuan Gwynedd, y gŵr a gyfrifir fel rheol yn un eithriadol addfwyn a charedig. Ysgrifennodd hwnnw yn hynod o greulon trwy fanteisio ar ei waith yn adolygu gweithiau barddonol Silvan Evans.

Yn y cysylltiad hwn cyfyd profedigaeth i ddyfynnu o gynnwys erthygl Ieuan Gwynedd yn *Y Traethodydd* am 1847. Gwneir hyn er mwyn gwireddu'r gosodiad a geir uchod. Bydd hefyd yn enghraifft o ddull a naws yr adolygiadau a ymddangosai yn y cyfnod hwnnw.

Yn gynnar fe geir y frawddeg hon : "Dywedir yn gyffredin nad ydyw dynion yn hoff o ddarllen unrhyw lyfr os na bydd ganddynt ryw wybodaeth am ei awdur". Rhyfedd iawn yn wir. Os oes rhith o sail i hyn, paham na cheid bywgraffiad swyddogol ar ddechrau pob cyfrol yn hytrach na gadael y gorchwyl i fympwy adolygydd ?

Yn y frawddeg nesaf, cyhoeddir : "Gan yr hoffem weled gweithiau Mr. Evans yn cael eu darllen, er gochel eu ffaeleddau yn gystal ac efelychu eu rhagoroldeb, ni a ddechreuwn ein hadolygiad trwy ychydig grybwyllion am dano ef ei hunan". Oddiwrth hyn gellid tybied bod gan Ieuan Gwynedd ddau fwriad llesol mewn golwg. Y cyntaf yw sicrhau cylchrediad sylweddol i ddwy gyfrol Silvan Evans. Onid yw'n ystyriol wrth geisio cynorthwyo'r efrydydd tlawd i dynnu deupen y llinyn ariannol ynghyd ? Chwarae teg iddo am ei ysbryd haelionus. Cofier hefyd fod gan yr adolygydd ddyhead arall, sef ymdrechu cael y ddau lyfr dan ei ofal i fod yn gyfryngau manteisiol i addysgu'r darllenwyr. Wrth ddarllen ymhellach ymlaen gwelwn i Ieuan Gwynedd droi'n ddigon angharedig i ddefnyddio'r bywgraffiad a ysgrifennodd er mwyn lledu dyfaliad anghywir am gymeriad Silvan Evans. Yn hytrach na chladdu'r celwydd i bydru mewn anghofrwydd, gesyd ef iddo draed i redeg

dros y wlad, a cherdded drwy amser fel drychiolaeth ddieflig. A dweud y lleiaf, nid yw'r driniaeth hon yn deilwng o ddyn cyffredin heb son am ŵr o safon uwch. Achosodd loes ddi-angen i un a gollfarnwyd ar gam yn euog. Yn ychwanegol hefyd, dylid cofio mai dyn ieuanc oedd Silvan Evans ar y pryd yn disgwyl am brofion o'i ddiniweidrwydd.

Ar ôl trafod y chwedl gelwyddog hon, teifl Ieuan Gwynedd ei wenwyn ymhellach mewn llysnafedd. Clywch y geiriau brathog hyn : "Y mae Mr. Evans yn bresennol yn efrydydd yng Ngholeg Dewi Sant, a chan hyny ar y ffordd i fyned yn offeiriad. Fel eraill o blant yr awen, y rhai sydd yn awr yn gorphwys oddiwrth eu llafur ac yn medi ffrwyth eu gweithredoedd yn mynwes yr Eglwys Sefydledig, bu yntau hefyd yn Ymneillduwr."

Nid oedd angen erioed am i Silvan Evans gywilyddio oherwydd iddo fod unwaith yn Ymneilltuwr. Ac ni wnaeth ychwaith. A oedd gofyn am ymddiheuriad oherwydd troi ohono i'r Eglwys Sefydledig ? Y ffaith noeth yw mai ei orfodi a gafodd i'r cyfeiriad hwn gan gorgwn o erlidwyr. Onid oedd derbyn gwahoddiad i gerdded drwy borth agored yn anrhydeddus ? Wrth gwrs hynny. Os "cauwyd ei ffordd a drain" tua Cholog Aberhonddu, yn ôl tystiolaeth Ieuan Gwynedd, onid gweddusach yw derbyn croeso yn hytrach na gwargrymu i gario croesau ?

Dychwelir eto at yr un pwnc i fwrw ergyd, gan ffugio'n rhadlon, yn y geiriau hyn : "Y mae yn awr yn efrydydd mor syber a Sant Dewi ei hunan, yn ei goleg : ac nis gallwn lai na dymuno o'n calon iddo gael bywioliaeth dda, ac yn wir ni chenfigenem pe y cyrhaeddai esgobaeth."

Go brin y gellir cysoni gwaith Ieuan Gwynedd yn dilorni Silvan Evans am fyned i'r Eglwys Sefydledig a'r dystiolaeth hon am gyflwr yr offeiriad yn ei gyfnod : "Mae ei fynydd ef yn ddiogel. Mae ei gyflog mor ansigledig a Chader Idris, ac ni wna rhochiadau grwgnachlyd ei blwyfolion ddim mwy effaith arno na dwndwr y dyfnder ar glogwyn y Penmaen Mawr. Y mae yn trigo mewn diogelwch". Y trueni yw na fedrai gweinidogion Ymneilltuaeth fwynhau'r un breintiau Cristnogol.

Gwendid amlwg yn yr adolygiad hwn yw parodrwydd Ieuan Gwynedd i gasglu gwendidau ynglŷn â'r awdur yn hytrach nag estyn beirniadaeth deg o'i gyfansoddiadau. Brithir y gwaith hwn ag enghreifftiau o hynny.

Erbyn heddiw medrwn edrych yn ôl ar ymneilltuad Silvan Evans i'r Eglwys Sefydledig, a gosod dyfarniad cywir. Gorfu ef ar ei erlidwyr. O'r herwydd, enillodd drech cyfle i wasanaethu Llenyddiaeth ein cenedl trwy newid ei Enwad. Yn wir, daroganodd Ieuan Gwynedd hyn. "Ni amheuwn", meddai, "na bydd ymadawiad Mr. Evans â'r Ymneillduwyr yn ennill i lenoriaeth Gymreig". Dengys ffeithiau na wnaeth ef "orphwys oddiwrth" ei

"lafur" a "medi ffrwyth" ei "weithredoedd yn mynwes yr Eglwys Sefydledig". Yn hytrach, daeth iddo ryddid i gyflawni toreth o waith sydd yn addurn i'w ddiwylliant a'i ddiwydrwydd.

Yng Ngholeg Dewi Sant, ymegnïodd Silvan Evans ar unwaith i sicrhau'r lle blaenaf yn ei ddosbarth, a chadwodd ef o ddechrau ei yrfa hyd y diwedd gan fwynhau ysgoloriaeth. Yn ystod ei flwyddyn olaf fe'i dewiswyd hefyd yn Athro mewn Cymraeg.

Ar derfyn ei gwrs yn Rhagfyr 1847 ordeiniodd Esgob Bethel o Fangor ef. Yn fuan, dechreuodd ar ei lafur fel curad yn Llangwynnin, Llyn, gan aros yno o Ionawr 1848 hyd 1852. Yna, symudodd i Langian am ddeng mlynedd arall. Yn 1862, gwnaed ef yn Rheithor i blwyf rhamantus Llanymawddwy, nes newid am Lanwrin yn 1876.

Gwelir iddo dreulio ei oes mewn mannau diarffordd, ac ymhell o gyrraedd llyfrgelloedd pwysig. Er i hyn fod yn anfantais iddo, casglodd nifer helaeth o hen drysorau llenyddol. Bu tawelwch y wlad yn gaffaeliad i'w ysbryd ymchwilgar. Estynnid gan boblogaeth denau ddigon o hamdden i ddilyn ei chwaeth. Parhaodd yn ddiflino i efrydu, yn ôl ei dystiolaeth,—"nid wrth reol, nac yn ddi-reol, ond heb reol". Ymdrechodd drwy amgylchiadau cyndyn i fynnu a lledu gwybodaeth.

Profwyd gan Silvan Evans anterth ystormydd mewn bywyd. Collodd ei wraig trwy ddamwain alaethus yn nhref Machynlleth. Breintiwyd ef a saith o blant. Collodd chwech ohonynt mewn ieuenctid, dau yn feddygon disglair, ond yn marw yn ddeuddeg ar hugain oed. Un yn unig a adawyd yn gysur i'w henaint. Hwnnw a'i cynorthwyodd yn helaeth yn ystod ei gyfnod olaf.

Araf iawn y daeth pob dyrchafiad i Silvan Evans yn ei Eglwys. Gan ei fod yn feudwyaidd ei ddull o fyw, ni ddisgynnodd yr anrhydeddau arno yn ôl ei haeddiant. Gwnaed ef yn Ganon Mygedol yn 1888, yn Ganghellor yn 1895, ac yn Gaplan i'r Esgob Lloyd, yn 1899. Bernid yr haeddai gadair Esgob ei hun, eithr, er iddo fyw'n hir, ni sylweddolwyd yr urddas gweddus hwnnw.

Cydnabuwyd Silvan Evans fel ysgolhaig. Enillodd ei radd o B.D. (Llanbedr) yn 1868. Etholwyd ef yn Gymrawd o Goleg yr Iesu, Rhydychen, yn 1897.

Gwasanaethodd fel Arholydd mewn Cymraeg yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr o'r flwyddyn 1875 hyd 1880. Bu'n Athro mewn Cymraeg yng Ngholeg Cenedlaethol Aberystwyth o 1875 hyd 1883.

Yn briodol iawn, ym mis Tachwedd 1901, cyflwynodd Prifysgol Cymru radd anrhydeddus o Ddoethor mewn Llenyddiaeth i Silvan Evans. Ar gyfrif llesgedd a henaint, methodd fyned i Aberystwyth i dderbyn y gydnabyddiaeth. Ar yr achlysur, dywedodd Syr John Rhŷs : "Llawen gennyf gael y cyfle hwn i ddwyn i'ch sylw un sydd wedi bod am flwyddi maith yn addurn i lenyddiaeth ei wlad ac yn

arweinydd yn y byd Cymreig. . . . Fy nghais yw fod i chwi weled yn dda raddio Daniel Silvan Evans yn Athraw Llên fel teyrnged o barch ac anrhydedd i'w athrylith a hir waith ei oes. Nis gellir lle cyfaddasach na'r fan hon y bu yn llafurio ynddi am flynyddau yn ôl i ddysgu i ieuenctid yr Athrofa yn Aberystwyth elfennau ieithyddiaeth a llenoriaeth y Gymraeg. Cyfaddas hollol hefyd yw iddo ef fod y blaenaf i dderbyn yr anrhydedd a geisir gennych *honoris causa*".

Bu llawer o achwyn ar Silvan Evans oherwydd ei lafur fel llenor. Danfonodd un offeiriad maleisus at Esgob Bangor, Dr. Campbell, gyhuddiad yn ei erbyn am fod yn Olygydd i gylchgrawn a elwid *Y Brython*. Gwerth ei guradaeth i Silvan Evans ar y pryd oedd £92. Ychwanegai'r olygyddiaeth £24 i wneud cyfanswm ei emillion yn £116. Ar hynny o arian y dibynnai un-ar-ddeg am gynhaliaeth yn y cartref. Yn hytrach na chreu dim cynnwrf, ymddiswyddodd y Golygydd, a bu'r cylchgrawn gwerthfawr farw o'r herwydd.

Cafodd Silvan Evans ei eni ar ddydd Sul yn Ionawr. Bu farw ar Sul y Pasg, yn Ebrill 1903, ar derfyn taith hirfaith o chwe blynedd a phedwar ugain.

Rhew ac oerni'r Gaeaf a guddiai'r Gymraeg a'i Llenyddiaeth pan ymddangosodd ef. Eithr, wrth iddo ymadael, gwenai'r Gwanwyn cynnar arnynt, a gwelid arwyddion o atgyfodiad yn eu hanes.

Canodd Daniel Ddu o Geredigion y ddwy linell yma'n wrogaeth i Silvan Evans :

Gemwaith a luni'n gymen :—
Cei wirglod pur heb sur sen.

Gwaetha'r modd, ni chafwyd nemor neb yn ei ddydd i'w foli. Erbyn heddiw, ciliodd ei enw i ddistawrwydd, a phrin yw nifer y sawl a fyn ei fawrygu.

Yn ddiweddar, ymwelais â mynwent yr Eglwys yng Nghemaes ar lannau Dyfi. Gyda gofid yr edrychais i ganfod miaren yn ymdorchi ar fedd diaddurn Daniel Silvan Evans. Ie, miaren, megis sarff hirfain, unig.

(*I barhau*).

Newyddion yr Enwad.

CYRDDAU SEFYDLU.—Cynhaliwyd cyfarfodydd sefydlu y Parch. J. Aubrey Martin yn weinidog ar eglwysi Llwynrhydowen a Bwlchyfadfa ar y 30ain o Fedi a'r 1af o Hydref, 1952. Dechreuwyd ar nos Fawrth yng Nghapel y Fadfa gyda chyfarfod pregethu ac yr oedd y ddau bregethwr, y Parchn. T. O. Williams a D. Jacob Davies yn eu hwyliau gorau o flaen cynulleidfa enfawr. Y Parch. D. Rhydderch (A), Llandysul a gymerth y darlleniad a'r Parch. J. Marles Thomas, un o blant disglair yr eglwys a oedd yn llywyddu. Gwasanaethodd Miss Thomas, Greengrove wrth yr organ a rhoddwyd y fendith ar y diwedd gan yr offeiriad lleol, y Parch. W. M. Jenkins, Talgarreg. Ond er cystal y cwrdd yma nid oedd ond rhagarweiniad i bethau mwy trannoeth. Ni ellid cynnwys y dorf yng nghapel eang y Llwyn a bu raid i lawer fodloni ar sain y moliant o bell. Yr oedd y cyfarfod sefydlu hwn eto o dan lywyddiaeth y Parch. Marles Thomas a bendithiwyd y cwrdd a hin hyfryd a siaradwyr huawdl. Yr oedd yr addoliad arweiniol yn nwylo medrus yr Hybarch Lewis Williams, a gobeithiwn y bydd Mr. Williams yn derbyn y teitl newydd hwn fel arwydd o'n parch iddo. Yna dilynodd y croesawu gan y siaradwyr canlynol : Mr. Richard Davies (Llwyn) a Mr. E. Lloyd Jones (Bwlch) ; Mri. Watcyn Davies a Evan Davies ar ran yr Ysgolion Sul ; Mr. Elwyn Davies a Mr. Inver Davies ar ran pobl ifainc yr eglwysi. Siaradodd y Parch. S. E. Bowen ar ran y Gymdeithas a'r Parchn. D. Williams (A) a T. Lloyd Jones (A) ar ran eglwysi'r cylch a chafwyd gair dros yr aelodau gwasgaredig gan Mr. J. O. Lewis, Llundain a Mr. J. C. Jones, Derwydd. Mewn gair a theimlad dwys amlygwyd croeso cynnes ardaloedd cyfan i'r gweinidog newydd. Nid yw'r Cardi yn addo nac yn rhoi yn rhwydd ond y mae'n sicr iddo roi ac addo o'i orau y prynhawn hwn. Atebodd y gweinidog yn ei ddull diymhongar a didwyll gan roi ei addewid yntau. Bendith a fo ar y cyfamod. Yn yr hwyr seliwyd y cyfamod gyda dwy bregeth arall a'r gweinidog yn llywyddu. Tystiodd llawer na chlywsant well cenadwri nag a gawsom gan y Prifathro J. D. Jones ac R. I. Pritchard. Y Parch. Noel James a ddechreuodd y cwrdd a'r Organyddesau oedd Mrs. Evans, Gwarcwm a Mrs. Myra Parry-Jones. Gofalodd gwragedd y ddwy eglwys am arlwy bwrdd yn anrhydeddus. Yn wir, dyma gyrddau teilwng o'r traddodiadau mawr a boed ynddynt egin traddodiadau mwy.

CYSTADLEUAETH LLEN Y MYNWENTYDD.—Ni chafwyd neb i gystadlu. A ydym wedi mynd yn enwad anllythrennog ? Pa beth a ddigwyddodd i'r cannoedd plant a fu mewn ysgol ramadeg ac ysgol ganol ? Fe welir amodau'r gystadleuaeth yn Rhifyn Medi, tud. 163 ac yr wyf am roi un cynnig eto gan adael y gystadleuaeth yn agored hyd y 14 o Chwefror.

Y GRONFA APEL.—Da gweld y flwyddyn newydd yn agor gyda chyfraniad arall, Mr. John Thomas, Aberdar, £1. Beth am y rhai sydd heb gofio amdano eto ?



JOHN HENRY MORGAN, 1870—1952.

Cyhoeddir ysgrif helaeth ar fywyd a gwaith Mr. Morgan yn ein rhifyn nesaf. Er mawr ofid i'r Golygydd methwyd a'i chynnwys y tro hwn.

Maes Llafur yr Ysgol Sul, 1953.

SAFON I (dan 9 oed), "Dyddiau Iesu" (Jennie Thomas), o dudalen 37 i'r diwedd.

SAFON II (9—12), "Beth a Gredwn", Gwersi yr Ysgolion Sul Undodaidd am 1952—53 gan y Parch. T. O. Williams, M.A.

SAFON III (12—16), "Hanes ein Mudiad Ni" ynghyd a "Beth a Gredwn", Gwersi yr Ysgolion Sul Undodaidd, 1952—53 gan y Parch. T. O. Williams.

SAFON IV (dros 16), Egwyddorion yr Undodiaid (J. Islan Jones), y llyfr i gyd.

Gellir cael "Dyddiau Iesu" mewn unrhyw siop lyfrau ac "Egwyddorion yr Undodiaid" a "Gwersi yr Ysgolion Sul Undodaidd am 1952-53" oddi wrth yr Ysgrifenyddes. Cynhelir yr Arholiad ar y Sadwrn cyntaf ym Mis Mawrth 1953, y 7fed. (Ysgrifenyddes—Miss Evans, Dedwyddfa, Llandysul).

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.